**Cyfeirnod:** IR818

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Mawrth 2022

# Swyddogion Amrywiaeth

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 23 Chwefror 2022, lle gofynnoch am wybodaeth ynghylch swyddogion amrywiaeth.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod mewn print trwm, gan nodi ein hymatebion cyfatebol:

**Nifer cyfredol y gweithwyr sy'n gwbl gyfrifol neu'n bennaf gyfrifol am faterion amrywiaeth yn eich sefydliad (e.e. Swyddogion Amrywiaeth, Swyddogion Cynhwysiant, ayyb, neu'r rhai y mae'r rhan fwyaf o'u rolau'n ymwneud â chyfrifoldebau tebyg).**

Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyfateb yn union i'r disgrifiad hwn, oherwydd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi unrhyw un â'r teitl Swyddog Amrywiaeth neu Gynhwysiant, nac unrhyw un y mae'r rhan fwyaf o'i rôl yn ymwneud â chyfrifoldebau tebyg.

Mae rhai gweithwyr mewn timau corfforaethol sydd â chyfrifoldebau sy'n ymwneud ag amrywiaeth sefydliadol; fodd bynnag, nid yw'r gweithwyr hyn yn gwbl gyfrifol nac yn bennaf gyfrifol am faterion amrywiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru.

**Y cyfanswm a dalwyd ar gyflogau rolau o'r fath.**

Ar sail y diffiniad o'r gweithwyr y gofynnwyd amdanynt yng Nghwestiwn 1, nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

**Cyflog ac ystod cyflogau cyfartalog rolau o'r fath.**

Ar sail y diffiniad o'r gweithwyr y gofynnwyd amdanynt yng Nghwestiwn 1, nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn.

Mae ystodau cyflog staff Swyddfa Archwilio Cymru ar gael yn gyhoeddus ar wefan Archwilio Cymru: [Graddfa cyflog Archwilio Cymru – gan ddechrau 1 Ebrill 2021](). Mae'r gweithwyr sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am amrywiaeth yn amrywio o Fand 3 i lefel Cyfarwyddwr.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,
Y Swyddog Gwybodaeth